

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 4) ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal

Ebrill 2022

1. Cefndir

1. Trafododd y Senedd gynig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Bil Iechyd a Gofal ("y Bil") Llywodraeth y DU ar 15 Chwefror 2022, ac fe'i derbyniwyd. Roedd y darpariaethau y gofynnwyd am gydsyniad y Senedd ar eu cyfer wedi'u nodi yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ("y Memorandwm") ac mewn dau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ("Memorandwm rhif 2" a "Memorandwm rhif 3"). Mae ein hadroddiadau ar y Memorandwm a'r ddau Femorandwm atodol ar gael ar wefan y Senedd.

2. Memorandwm Atodol: Memorandwm rhif 4

Memorandwm rhif 4

2. Ar 5 Ebrill 2022, gosododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol arall ("Memorandwm Atodol rhif 4") gerbron y Senedd. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn ymdrin â gwelliant a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Mawrth 2022 mewn perthynas â 'thwristiaeth organau'.

3. Ar 29 Mawrth 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Memorandwm Atodol rhif 4 at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at ddibenion craffu, a'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 26 Ebrill 2022.

Cymal 181

4. Cyflwynodd yr Arglwydd Hunt o King's Heath welliant anllywodraethol i atal pobl rhag ceisio cael organau'n anfoesegol dramor, arfer a ddisgrifir fel 'thwristiaeth organau', ac fe'i



derbyniwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 16 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Atodol yn nodi'r canlynol:

"Roedd Llywodraeth y DU o'r farn bod y cymal yn anymarferol ac y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol".¹

5. Wedi hynny, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant i ddisodli'r ddarpariaeth â dull gwahanol o gyflawni'r un nod.

6. Ar ôl i Dŷ'r Cyffredin gytuno ar welliant Llywodraeth y DU ar 30 Mawrth 2022, diwygiwyd Deddf Meinweoedd Dynol 2004 ("Deddf 2004") gan gymal 181. Mae adran 32 o Ddeddf 2004 eisoes yn darparu ei bod yn drosedd talu, neu gynnig talu, am organ a gwneud trefniadau i brynu organau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.² Mae cymal 181 yn mewnosod adran newydd 32A yn Neddf 2004 i'w gwneud hi'n drosedd ymgymryd â gweithgareddau o'r fath y tu allan i'r DU.

7. Barn Llywodraeth Cymru yw bod cymal 181 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Memorandwm Atodol Rhif 4 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid cymhwyso'r ddarpariaeth i Gymru, gan ychwanegu:

"Byddai peidio â chefnogi ymestyn y gwelliant i Gymru yn golygu na fyddai'r mesur hwn yn gymwys i drigolion Cymru sy'n ceisio talu am organau i'w trawsblannu dramor, ac yn ein gadael mewn sefyllfa lle y byddai angen chwilio am gyfle deddfwriaethol arall er mwyn cyflawni'r un mesur. Felly, ar yr achlysur hwn, rwy'n credu ei bod yn iawn i gytuno bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran Cymru".³

Goblygiadau ariannol

8. Mae Memorandwm Atodol rhif 4 yn esbonio nad oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi ar gyfer Cymru, er ei fod yn ychwanegu y gallai atal pobl rhag teithio dramor "i gael

¹ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Iechyd a Gofal*, 5 Ebrill 2022

² Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr Alban wedi'i nodi yn Neddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006. Mae cymal 181 yn gwneud diwygiadau tebyg i'r ddeddfwriaeth honno.

³ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Iechyd a Gofal*, 5 Ebrill 2022

trawsblaniadau organau mewn modd anfoesegol, heb ei reoli" osgoi costau heb eu cynllunio i GIG Cymru, costau a allai godi fel arall.⁴

Ein barn ni

- 9.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd, oherwydd bod cymal 181 yn ymwneud ag iechyd, ac nid yw hwn yn fater a gedwir yn ôl o dan atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae diben y ddarpariaeth, felly, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 10.** Gosodwyd y Memorandwm yn ystod y toriad ac roedd angen cyflwyno adroddiad cyn pen tair wythnos yn unig. Mae hyn wedi cyfyngu'n sylweddol ar ein gallu i graffu arno neu i ddod i gasgliad fel Pwyllgor ynghylch a ddylai'r Senedd roi ei gydsyniad i gymhwyso cymal 181 i Gymru ai peidio.
- 11.** Rydym yn sylweddoli bod hyn i'w briodoli i'r ffaith bod y gwelliant i'r Bil wedi'i wneud yn hwyr yn y broses, a bod angen sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle i ystyried a yw am roi ei chydsyniad ai peidio cyn cwblhau'r trafodaethau terfynol ar y gwelliannau i'r Bil yn San Steffan.
- 12.** Serch hynny, rydym yn ailadrodd y pryderon a nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar Femorandwm Atodol rhif. 2 a rhif 3 am y defnydd cynyddol o femoranda cydsyniad deddfwriaethol fel mecanwaith ar gyfer deddfu ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru:

"...yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i ofyn i ddarpariaeth yn neddfwriaeth y DU gael ei hymestyn i Gymru yn hytrach na mynd i'r afael â hyn mewn deddfwriaeth Gymreig addas a fyddai'n destun craffu gan broses graffu gadarn Senedd Cymru, ochr yn ochr â'r gwelliant a wnaed ar gyfnod mor hwyr yn y broses, ac felly'r amser cyfyngedig iawn a oedd ar gael i graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a MCD atodol, mae hyn yn anorfod yn cyfyngu ar allu Pwyllgorau'r Senedd i gynnal gwaith craffu manwl ac ystyrlon ar y goblygiadau posibl a allai godi yn y cyd-destun polisi, deddfwriaethol a gweithredol yng Nghymru. Mae'r dull hwn nid yn unig yn arwain at fwy o risg y bydd goblygiadau anfwriadol neu oblygiadau nas rhagwelir y gellid fel arall eu nodi a'u lliniaru drwy waith craffu, ond mae hefyd yn arwain at risg o

⁴ Llywodraeth Cymru, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Iechyd a Gofal*, 5 Ebrill 2022

danseilio rôl y Senedd fel corff sy'n gwneud deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Nid dyma, felly, y dull gorau o ddeddfu".⁵

⁵ Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal (memoranda rhif 2 a rhif 3)*, Chwefror 2022
